OES RHAID I GRISTNOGION GADW'R SABOTH?

Nodyn i'r siaradwr:
Pwysleisiwch mai amser i lawenhau a moli Duw oedd y Saboth. Gwnewch yn eglur fod Cristnogion yn dod i mewn i orffwysfa Duw drwy ymddiried yn ei addewidion, rhoi blaenoriaeth i fuddiannau ysbrydol, a byw yn ôl ei ffyrdd yn feunyddiol

GWAHANOL FFYRDD O EDRYCH AR Y SABOTH (2 mun.)

I lawer ym Myd Cred mae Dydd Sul yn ddiwrnod sanctaidd. I eraill Dydd Sadwrn ydi'r diwrnod sanctaidd (*g*81 1/8 26)

Erbyn heddiw hamdden sy'n llenwi oriau'r "dyddiau sanctaidd" hyn

Er mwyn deall be' 'di ystyr Saboth y Beibl i Gristnogion, mae'n rhaid inni ddeall beth oedd ei ystyr yn y cychwyn

RHODDWYD Y SABOTH I DDYN ER MWYN EI LES (15 mun.)

Mae'r gair "saboth" yn dod o ferf Hebraeg sy'n golygu "gorffwys, peidio â, ymatal rhag" (*rs* 345)

Rhoddodd Jehofah y Saboth yn "arwydd" rhyngddo ef a phobl Israel (Darllen Exodus 31:16, 17)

Diwrnod oedd e wedi'i neilltuo gan Dduw er mwyn i'w bobl orffwyso o'u llafur

Mi 'roedd y Saboth wythnosol yn rhan o gyfundrefn o sabothau (*it*-2 830-1)

'Roedd bodolaeth cenedl Israel yn dibynnu'n llwyr ar gadw'r sabothau o'r galon

Un o'r rhesymau dros gwymp Israel oedd anwybyddu deddfau'r Saboth

Fe fu tir Jwda yn anghyfannedd am 70 mlynedd er mwyn cwblhau talu dyled blynyddoedd y Sabothau (2Cron 36:20, 21; *it*-2 834)

Cyfle oedd y blynyddoedd hyn i'r tir ei adnewyddu'i hun

Amcan y Saboth wythnosol oedd bod yn fendith, nid bod yn feichus (Marc 2:27)

'Roedd yn rhoi cyfle i ddyn ac anifail dof orffwys ac adnewyddu

'Roedd yn ddiwrnod cysegredig—cyfle i roi sylw i anghenion ysbrydol (Deut 5:12)

Yn atgoffa Israel am eu rhyddhau o'r Aifft, lle na chawsan' nhw ddim gorffwys (Deut 5:14, 15)

Yn rhoi cyfle i rieni i ddysgu'u plant am Dduw (Deut 6:6, 7; *it*-2 831)

Agwedd mwy pwysig o drefn y sabath oedd y cyfle a roddai i ddangos ffydd yn Jehofah a'i allu i ddarparu anghenion (*it*-2 831)

'Doedd dim gwaith i gael ei wneud ar ddyddiau'r Saboth, na dim trin y tir yn ystod blynyddoedd y Saboth (Lef 25:4)

'Roedd y genedl i ddibynnu ar Jehofah i ddarparu ar eu cyfer (*it*-2 830)

Yr hyn oedd o ddiddordeb i Jehofah oedd gwerthfawrogiad o'r galon, nid dathlu mewn enw'n unig (Darllen Eseia 58:13, 14)

'Roedd yr Israeliaid yn dangos ffydd pan 'roedden' nhw'n cysegru'r dydd Saboth i Jehofah

Cafodd yr Israeliaid fendith am ufuddhau mewn ffydd a chariad

DIWEDD TREFN Y SABOTH (10 mun.)

Ganrif ar ôl canrif, 'roedd arweinwyr crefyddol yr Iddewon yn ychwanegu mwy a mwy o gyfyngiadau ar y Saboth (*w*93 2/15 27)

Beirniadodd Iesu nhw am wneud pwrpas y Saboth yn ddirym (Math 12:1-8; Luc 13:10-16)

Daeth "cyfamod newydd" i ddileu Cyfraith Moses (Jer 31:31-33; Luc 22:20; Heb 8:13)

Drwy aberth pridwerthol Crist bwriwyd Cyfraith Moses "o'r neilltu" (Col 2:13, 14)

Unig sail cyfiawnder o hyn ymlaen ydi ffydd yng Nghrist Iesu (Rhuf 10:4; *w*93 2/15 29)

'Does neb yn medru ennill cymeradwyaeth Duw yn unig drwy weithredu yn ôl rheolau arbennig (*rs* 350)

Yn yr Ysgrythurau mae'r Deg Gorchymyn yn rhan annatod o Ddeddf Moses (*it*-2 832)

Daeth cyfundrefn y Sabothau, gan gynnwys y dydd Saboth, i ben (Rhuf 14:5; Col 2:16, 17)

MAE CRISTNOGION HEDDIW YN ELWA O FYND I MEWN I ORFFWYSFA DUW (15 mun.)

Er i Israel fethu â mynd i mewn i orffwysfa Duw, mi all Cristnogion wneud hynny drwy ffydd ac ufudd-dod (Darllen Hebreaid 4:8, 9) (*w*98 7/15 18)

Mae ffydd yn y pridwerth yn symud baich pechod a glanhau'r gydwybod (Heb 9:14; *w*99 5/15 24)

Mae Cristnogion ymroddedig yn "gorffwys" drwy roi blaenoriaeth i fuddiannau Duw, yn hytrach nag i bethau hunanol (*rs* 349-50)

Gwnawn bopeth yn ein gallu i osgoi anufuddhau i Dduw (Heb 4:11)

'Rydym yn ymddiried yn Nuw, a pheidio â chaniatàu i ddim byd darfu ar ein perthynas lân ag ef (Heb 13:5, 6)

Cadwn ein golygon ar y Deyrnas, a rhoi ein gofidiau a'n pryderon i un ochr (Math 6:19, 22, 33; *w*93 12/15 27)

Cymerwn bob cyfle i foli Jehofah (Eff 5:15, 16)

Mae cyfarfodydd Cristnogol yn rhan sylfaenol o raglen ysbrydol iach (Heb 3:13; 10:24)

Mae teulu duwiol yn elwa'n ysbrydol wrth ddefnyddio amser yn ddoeth

Mae darllen a thrafod cyson ar Air Duw fel teulu yn help i amddiffyn dyfodol bythol ein plant (Diar 22:6; Math 4:4)

BENDITHION Y SABOTH (3 mun.)

Hyd yn oed 'nawr, bob dydd, mi fedrwn ni dderbyn lles mynd i mewn i orffwysfa Duw (*w*91 2/15 24)

Fel addawodd Duw i Israel, os gweithredwn ffydd ac ufudd-dod fe ddaw bendithion i'n rhan (Deut 28:13)

Cyn bo hir, fe fydd teyrnasiad Mil Blynyddoedd Crist, Arglwydd y Saboth, yn cychwyn (Math 12:8; Dat 20:2-4)

Mi fydd y teyrnasu hwnnw yn debyg i gyfnod o orffwys y saboth (*it*-2 833)

Trwyddo y cawn lawn brofi buddion y pridwerth (*w*99 4/15 12)

Fe gaiff y ddaear a'r ddynoliaeth ffyddlon eu llwyr ryddhau (Dat 21:1-4)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir, na gwneud sylwadau arnyn' nhw)